# IS-BWYLLGOR IAITH, 17.04.12

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Liz Saville Roberts (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr Elwyn Edwards a Penri Jones.

**Swyddogion:** Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Gwen Carrington (Pennaeth Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol), Debbie Williams Jones (Swyddog Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg), Ruth Richards (Swyddog Polisi Cydraddoldeb ac Iaith), Lowri Evans (Swyddog Datblygu Polisi) ac Eirian Roberts (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Dyfed Edwards, Llinos Merks, Eric Merfyn Jones a Sion S.Roberts.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. DOGFEN YMGYNGHOROL LLYWODRAETH CYMRU "MWY NA GEIRIAU ..."

Eglurodd y Cadeirydd y galwyd y cyfarfod arbennig hwn o'r Is-Bwyllgor Iaith i drafod a llunio ymateb i ddogfen ymgynghorol Llywodraeth Cymru "*Mwy na geiriau* ...", sef Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol.

Pwysleisiodd y Cadeirydd fod diffyg gwasanaethau Cymraeg yn y meysydd hyn wedi bod yn destun pryder iddo a'i fod yn eithriadol falch bod y ddogfen yn cydnabod bod rhaid i'r gallu i ddefnyddio'r iaith fod yn elfen hanfodol o ofal, ac nid yn opsiwn ychwanegol. Mawr hyderai y byddai'r pwyslais hwn ar "*angen*" yn hytrach na "*dewis*" yn cael ei adlewyrchu yn neddfwriaethau'r dyfodol.

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r ddogfen gan y Swyddog Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg. 'Roedd ymateb drafft yr Adran Darparu a Hamdden i'r 8 cwestiwn penodol a ofynnwyd ar y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad wedi'i gynnwys gyda phapurau'r cyfarfod ac 'roedd yr Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol ac Adnoddau Dynol yn y broses o baratoi eu hymateb hwythau i'r cwestiynau hynny.

Yna rhoddodd y Pennaeth Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyniad manwl ar lafar ar ddulliau'r adran o geisio cyfarch anghenion ieithyddol defnyddwyr y gwasanaethau, ynghyd â'r risgiau a'r heriadau ynghlwm â hynny.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Cyd-fynd â chynnnwys ymateb drafft yr Adran Darparu a Hamdden i'r ddogfen "Mwy na geiriau ...".**

**(b) Cyflwyno'r sylwadau ychwanegol a ganlyn fel ymateb yr is-bwyllgor hwn i'r ddogfen:-**

- **Datgan cefnogaeth frwd i'r newid pwyslais o "*ddewis*" i "*angen*" oherwydd bod y gallu i gynnig gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn elfen hanfodol o ofal, ac nid yn opsiwn ychwanegol.**

- **Pwysleisio bod angen eglurhad ynglŷn â statws y ddogfen a'r berthynas rhyngddi â safonau iaith a gaiff eu llunio maes o law yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.**
- **Nodi nad yw'r disgwyliadau o ran adrodd / monitro na'r atebolrwydd yn glir a bod angen i'r materion hyn fod yn glir yn y ddogfen derfynol.**
- **Awgrymu y dylai'r ddogfen fod wedi'i chyfeirio i sylw'r Comisiynydd Iaith yn gyntaf, cyn gwahodd sylwadau ar ei chynnwys, a phwysleisio bod angen cyswllt clir rhyngddi â'r safonau iaith arfaethedig.**
- **Nodi ei bod yn ymddangos bod y ddogfen hirymarhous a phellgyrhaeddol hon yn ticio'r holl focsys. Fodd bynnag, er mwyn i'r strategaeth weithio byddai'n rhaid iddi fod mewn cyd-destun mwy cyson gefnogol a byddai'n rhaid ystyried newidiadau sylfaenol i strategaethau eraill os ydyw am lwyddo.**
- **Pwysleisio bod y trosglwyddiad o ysgol i goleg yn allweddol bwysig a bod rhaid edrych ar hyn gan sicrhau bod llwybrau dysgu yn y maes iechyd a gofal yn cynnwys y dimensiwn iaith. Dylid edrych hefyd ar y dull o recriwtio gan ystyried sut i ddenu Cymry Cymraeg ifanc i'r sector iechyd a gofal.**
- **Awgrymu y dylai'r gallu i weithio yn y maes gofal trwy gyfrwng y Gymraeg gael ei gydnabod fel cymhwyster ychwanegol.**
- **Pwysleisio fod strwythurau gweinyddol a chefnogol yn bwysig hefyd o safbwynt cyfarch yr angen am ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.**
- **Nodi y dylid rhoi pwyslais ar y gwaith o fonitro a chefnogi'r sawl sy'n gweithio dan gontract.**
- **Nodi na ddylid dibynnu ar brotocol yn unig, gan nad yw hynny ynddo'i hun yn arwain at newidiadau ystyrlon.**

**(c) Cyfuno'r sylwadau uchod gyda sylwadau'r Adrannau Darparu a Hamdden, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Adnoddau Dynol a'u cyflwyno, maes o law, fel ymateb ffurfiol Cyngor Gwynedd i'r ddogfen.**

Ar ddiwedd y cyfarfod, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniad dros y ddwy flynedd ddiwethaf gan nodi y bu'n fraint iddo gael cadeirio'r is-bwyllgor hwn.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.15am.